Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Rhan A

Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd

Cwestiwn 4: A oes cymunedau neu grwpiau y mae eu barn yn cael ei thangynrychioli mewn prosesau cynllunio, a phwy ddylai gael sylw arbennig yn ystod y broses o ddiwygio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?

Credwn y dylid rhoi sylw penodol i brofiadau a safbwyntiau cymunedau Cymraeg eu hiaith wrth ddiwygio'r Fframwaith. Fel mae adroddiad cyntaf y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn ei nodi, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth, a'i bod yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd, rhaid gwarchod yn benodol y cymunedau hynny lle mae dwysedd uwch o siaradwyr. Er mwyn i'r Gymraeg ffynnu'n genedlaethol rhaid atal dirywiad pellach yn sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardaloedd lle mae hi ar ei chryfaf ar hyn o bryd. Mae gan y Fframwaith Cenedlaethol rôl bwysig yng nghyd-destun nifer o argymhellion polisi'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg, ac felly o ran cryfhau sefyllfa'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr.

Mae angen i'r Fframwaith felly gydnabod nad yw'r cyd-destun ieithyddol yn gyson ledled Cymru. Mae anghenion ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn wahanol i anghenion ardaloedd lle mae dwysedd siaradwyr yn is. Mewn ardaloedd dwysedd uwch, gall ffactorau megis y farchnad dai, allfudo pobl ifanc, newid demograffig, natur y farchnad lafur a mynediad at wasanaethau effeithio ar gynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mewn ardaloedd eraill, un o'r heriau allweddol yw creu a chynnal cyfleoedd digonol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu bywydau.

Credwn felly y dylid sicrhau bod proses ddiwygio'r Fframwaith yn cynnwys ymgysylltu penodol â chymunedau mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, ond hefyd â siaradwyr Cymraeg mewn rhannau eraill o Gymru. Dylid hefyd geisio clywed yn benodol gan bobl ifanc a theuluoedd ifanc, gan gynnwys pobl sydd wedi gadael eu cymunedau oherwydd diffyg tai, gwaith neu gyfleoedd addysg.

Byddai hefyd yn fuddiol ymgysylltu'n benodol â sefydliadau sydd yn ymwneud â chynllunio ieithyddol cymunedol, ac sydd ag arbenigedd o ran y cysylltiad rhwng y Gymraeg a pholisïau tai, addysg, datblygu economaidd, a'r economi wledig. Byddai hyn yn sicrhau bod y berthynas rhwng y meysydd hyn a chynaliadwyedd y Gymraeg yn cael ei deall yn llawn.

Cynllun Ymgysylltu ar gyfer y Sgwrs Genedlaethol

Cwestiwn 7: A yw'r themâu arfaethedig (gweler 4.1 o'r Cynllun Ymgysylltu ar gyfer y Sgwrs Genedlaethol) yn cwmpasu'r materion pwysicaf ar gyfer dyfodol Cymru.

Ydynt, ac rydym yn croesawu bod diwylliant a'r iaith Gymraeg wedi'i gynnwys fel thema benodol. Er hynny, credwn ei bod yn bwysig bod y Gymraeg yn cael ei hystyried fel mater trawsbynciol drwy'r holl themâu.

Mae dyfodol y Gymraeg yn perthyn yn agos i benderfyniadau ynghylch yr economi, tai, trafnidiaeth, addysg, defnydd tir, ynni a seilwaith. Mewn cymunedau lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg gall penderfyniadau mewn meysydd o'r fath gael effaith uniongyrchol ar allu pobl i barhau i fyw a gweithio yn eu cymunedau, ac o ganlyniad, ar gynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol. Fel mae ein hadroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg yn nodi, mae cynllunio, tai, addysg a pholisi economaidd ymhlith y meysydd y mae angen eu cydgysylltu er mwyn cryfhau cynllunio ieithyddol cymunedol.

Awgrymwn felly fod cynaliadwyedd ieithyddol cymunedau yn cael ei gydnabod fel ystyriaeth drawsbynciol yn y Sgwrs Genedlaethol, ac nid fel mater sy'n berthnasol i thema'r Gymraeg yn unig. Dylai hyn sicrhau bod y berthynas rhwng datblygu gofodol a chynaliadwyedd ieithyddol yn cael ei hystyried o ddechrau'r broses.

Cwestiwn 8: A oes unrhyw lefydd, cymunedau neu faterion y dylid rhoi sylw arbennig iddynt yn ystod y sgwrs genedlaethol?

Dylid rhoi sylw penodol i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg wedi argymell dynodi ardaloedd o'r fath er mwyn gallu addasu polisïau cyhoeddus i amgylchiadau ieithyddol lleol a chryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae'r Comisiwn wedi awgrymu ar sail y dystiolaeth sy'n bodoli, y dylai fod rhagdybiaeth o blaid dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fel ardaloedd sydd a 40% neu fwy o siaradwyr Cymraeg. Yn yr ardaloedd hyn mae materion yn ymwneud â chynllunio gwlad a thref, tai, a'r economi yn gwbl greiddiol i hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol.

Dylai'r Sgwrs Genedlaethol hefyd roi sylw i'r gwahanol heriau sy'n wynebu cymunedau lle mae dwysedd siaradwyr Cymraeg yn ganolig neu'n is. Yn yr ardaloedd hynny, gall yr angen i gynnal a chreu gofodau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fod lawn mor bwysig. Mae materion fel cynllunio darpariaeth addysg fel rhan o ddatblygiadau tai, cludiant a thrafnidiaeth i ysgolion, a chreu gofodau hamdden, chwaraeon a diwylliannol, yn faterion all ddylanwadu'n sylweddol ar gyfleoedd sydd gan bobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Rhan B

Themâu'r Sgwrs Genedlaethol

Cymru yn 2050

Cwestiwn 12: Am beth hoffech chi i Gymru fod yn adnabyddus amdano yn 2050? Sut gall cynllunio, datblygu a seilwaith helpu i wneud hyn ddigwydd?

Ein gweledigaeth yw Cymru lle gall y Gymraeg ffynnu fel iaith fyw a ddefnyddir yn naturiol ym mhob rhan o fywyd, ac mewn cymunedau cynaliadwy lle gall pobl fyw, gweithio, dysgu, defnyddio gwasanaethau a magu teuluoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai'r fframwaith gyfrannu at greu'r amodau economaidd, cymdeithasol a demograffig sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth hon. Mae ein hymatebion i gwestiynau eraill yr ymgynghoriad yn manylu ar sut gellid gwneud hyn.

Cwestiwn 13: Beth ddylem ni ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol o ran cymunedau, ein hamgylchedd (tir a môr) a'n seilwaith?

Dylai'r Gymraeg a'i diwylliant, gan gynnwys ei stoc unigryw a gwerthfawr o enwau lleoedd Cymraeg hanesyddol sy'n cofnodi ymwneud pobl Cymru â'u cynefin, gael eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Dylid hefyd warchod cymunedau Cymraeg eu hiaith ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Cwestiwn 14: Wrth edrych tuag at 2050, beth yw'r heriau a'r cyfleoedd mwyaf sy'n wynebu Cymru, a sut dylent ddylanwadu ar ddatblygu yn y dyfodol?

O safbwynt y Gymraeg, un o'r heriau mwyaf yw dirywiad cynaliadwyedd ieithyddol rhai o'r cymunedau lle mae'r Gymraeg wedi bod yn iaith naturiol bywyd bob dydd. Yn ddiweddar fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg ac un o brif gasgliadau'r adroddiad yw bod tystiolaeth glir o ddirywiad pellach yn sefyllfa'r Gymraeg mewn ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr. Does dim dwywaith fod sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw, sy'n cael ei defnyddio'n eang, ac sy'n cael ei throsglwyddo o un genhedlaeth i'r llall, yn gwegian.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at sut bod heriau economaidd a strwythurol gan gynnwys allfudo pobl ifanc, seilwaith trafnidiaeth gwan, pwysau'r farchnad dai, a diffyg cyfleoedd economaidd yn gwanhau cynaliadwyedd y cymunedau hyn.

Credwn fod y Fframwaith yn cynnig cyfle pwysig i sicrhau bod cynllunio gofodol yn cyfrannu at atgyfnerthu cynaliadwyedd cymunedol ac ieithyddol yr ardaloedd hyn. Gall wneud hyn drwy sicrhau bod tai, swyddi, trafnidiaeth, addysg a gwasanaethau yn cael eu cynllunio er mwyn creu'r amodau cymdeithasol ac economaidd sy'n galluogi'r Gymraeg ffynnu.

Y tu hwnt i ardaloedd sydd â dwysedd uwch o siaradwyr mae ein hadroddiad hefyd yn amlygu her o sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn dysgu'r Gymraeg drwy'r gyfundrefn addysg, a'u bod yn cael cyfleoedd amrywiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd. Credwn y gall y Fframwaith gefnogi'r gwaith o ehangu cyfleoedd i bobl ifanc gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, a hefyd o safbwynt cynllunio gofodau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg.

Economi a Swyddi

Cwestiwn 15: Pa rannau o Gymru ddylai gael blaenoriaeth ar gyfer swyddi, buddsoddiad, a thwf economaidd a pham?

Credwn y dylai buddsoddiad economaidd gael ei lywio gan yr angen i greu economïau lleol cynaliadwy ledled Cymru, yn hytrach na chanolbwyntio twf mewn nifer mwy cyfyngedig o ganolfannau.

O safbwynt y Gymraeg, mae achos penodol dros roi sylw i anghenion economaidd a chyflogaeth mewn ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

Mae atgyfnerthu seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg yn gwbl greiddiol i'r ymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr a chynyddu defnydd cymdeithasol o'r iaith. Yr her yw sicrhau fod gan bobl swyddi o ansawdd da, gyrfaoedd deniadol, a chartrefi digonol er mwyn iddynt allu aros, neu ddychwelyd, i'r cymunedau hynny. Dyma yn y pen draw yw'r prif ffactor sydd am ddylanwadu ar faterion allweddol fel cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg a defnydd cymdeithasol o'r iaith yn ein cymunedau Cymraeg.

Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg wedi dadlau mai un o'r rhesymau bod cymunedau â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn gweld gostyngiad cyson yn nifer a chanran y siaradwyr yw eu bod yn wynebu heriau strwythurol sylweddol, gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio, ac allfudo cyson o bobl ifanc. Noda'r Comisiwn bod rhai o'r prif heriau yn cynnwys:

- Isadeiledd trafnidiaeth gwan
- Marchnad lafur nad yw wastad yn bodloni anghenion diwydiant
- Lefelau cynhyrchiant sy'n is na'r rhan fwyaf o weddill y DU
- Tangyflogaeth a chyflogau isel

Mae'r heriau hyn yn golygu bod llai o gyfleoedd economaidd i ddenu pobl ifanc i aros neu i ddychwelyd i'r cymunedau hyn, sydd yn ei dro, yn dwysau ymhellach yr heriau i greu economi deniadol a ffyniannus.

Dylid felly flaenoriaethu cefnogi economi'r ardaloedd hyn mewn ffordd sydd yn creu swyddi cynaliadwy o ansawdd fydd yn galluogi pobl i fyw a gweithio yn eu cymunedau,

cefnogi busnesau a mentrau lleol, a chreu gweithleoedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.

Dros y cyfnod diwethaf mae'r Llywodraeth wedi cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg drwy raglen ARFOR. Er bod y rhaglen hon wedi bod yn llwyddiant, rhaid cydnabod hefyd fod y buddsoddiad o £11m ar gyfer ARFOR yn fychan iawn o ystyried cyllideb datblygu economaidd ehangach Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae'r Bargeinion Dinesig a Thwf yn darparu buddsoddiad gwerth biliynau o bunnoedd. Mae angen felly mwy o sylw ar sut mae'r cydbwyllgorau corfforedig yn rhoi ystyriaeth gydwybodol i'r Gymraeg wrth iddynt wneud penderfyniadau strategol a chyllidebol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun anghenion cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

Ynni

Cwestiwn 18: Sut gall prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel ddod â'r buddion mwyaf i gymunedau lleol ac economi Cymru?

Yn gysylltiedig â'n hymateb i gwestiwn 15 uchod, dylid ystyried sut gall prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel greu cyfleoedd economaidd sylweddol i rannau o Gymru, gan gynnwys cymunedau gwledig a chymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

Gallasai prosiectau o'r fath gyfrannu at greu swyddi lleol hirdymor, cadwyni cyflenwi lleol, cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau, a buddsoddiad mewn seilwaith cymunedol. Credwn fod potensial i brosiectau o'r fath greu cyfleoedd gwaith sy'n galluogi pobl ifanc i aros neu ddychwelyd i gymunedau Cymraeg eu hiaith.

Yn rhan o hyn dylid hefyd asesu effaith prosiectau mawr ar dai, mudo, gwasanaethau a seilwaith lleol ac ar y Gymraeg.

Sero Net a'r Economi Gylchol

Cwestiwn 22: Sut gall y newidiadau hyn gefnogi pontio teg sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, yn creu cyfleoedd ac yn deg i bobl a chymunedau ledled Cymru?

Rydym yn croesawu'r pwyslais ar y trawsnewid i sero net a'r economi gylchol. Mae gan yr agenda hwn oblygiadau economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol sylweddol, ac felly dylai'r Fframwaith gydnabod y berthynas rhwng y trawsnewid hwn a hyfywedd y Gymraeg, yn enwedig mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol gref.

Mae gan y sector sero net botensial gwirioneddol i gyfrannu at ffyniant economaidd ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, ac felly at gynnal a chryfhau'r

Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae sectorau megis amaethyddiaeth, coedwigaeth, defnydd tir a chynhyrchu ynni yn arbennig o berthnasol gan fod llawer o'r cyfleoedd economaidd sydd â photensial o ran ynni gwyrdd wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn gryf. Mae hyn yn arbennig o wir o safbwynt cymunedau gwledig sydd â llawer o adnoddau naturiol, a gellid eu galluogi i elwa o brosiectau ynni. Dylid hefyd ystyried hyn yng nghyd-destun ymrwymiad y Llywodraeth yn ei rhaglen lywodraethu i sicrhau bod pobl a chymunedau Cymru yn berchen ar fwy o fentrau ynni adnewyddadwy.

Rydym felly'n argymell bod y Fframwaith yn integreiddio ystyriaethau ieithyddol wrth gynllunio'r trawsnewid i sero net a'r economi gylchol.

Natur a thir

Cwestiwn 25: Sut dylai cynllunio defnydd tir amddiffyn a gwella natur wrth hefyd gefnogi tai, ynni adnewyddadwy, cynhyrchu bwyd, pren, datblygu economaidd, cyfleoedd economi gylchol, gwydnwch rhag llifogydd a lles cymunedol?

Mae'n bwysig cydnabod bod cynllunio defnydd tir yn cynnal cymunedau, economi leol a diwylliant. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig ac amaethyddol lle mae'r Gymraeg yn aml yn parhau'n iaith gymunedol gref. Amaethyddiaeth yw'r sector cyflogaeth â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ac mae busnesau amaethyddol yn cynnal llawer o gymunedau gwledig lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol bob dydd.

Dylid felly sicrhau bod penderfyniadau ynghylch cynllunio a newid defnydd tir yn cefnogi twf yr economi wledig ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd cymunedau amaethyddol. Gellid wneud hyn drwy ystyried sut mae penderfyniadau cynllunio ac economaidd newydd yn:

- Cynnal swyddi o ansawdd mewn cymunedau gwledig
- Cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros neu ddychwelyd i'r cymunedau hyn
- Cryfhau cadwyni cyflenwi lleol
- Cynnal amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd

Cartrefi a Thai

Cwestiwn 34: Pa fathau o gartrefi fydd eu hangen ar Gymru dros y 25 mlynedd nesaf, a ble dylid eu hadeiladu?

O safbwynt y Gymraeg a hyfywedd cymunedau Cymraeg eu hiaith mae'n hanfodol ein bod yn adeiladu'r cartrefi cywir, yn y lleoedd cywir, ar y raddfa gywir ac ar sail tystiolaeth gadarn am angen lleol.

Mewn cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, nid atal datblygu yw'r nod, ond yn hytrach sicrhau bod maint, math, lleoliad a natur datblygiadau tai yn ymateb i anghenion lleol ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor cymunedau Cymraeg eu hiaith. Mewn rhai amgylchiadau gall prinder tai fforddiadwy olygu na all pobl aros yn eu cymunedau, a gall hynny danseilio cynaliadwyedd cymunedol ac ieithyddol. Mewn amgylchiadau eraill, gall datblygiad nad yw'n cyfateb i anghenion lleol neu sydd ar raddfa anghymesur newid cymeriad demograffig ac ieithyddol cymuned.

Mae angen felly dull cytbwys sy'n sicrhau bod maint, natur a chyflymder datblygu yn ymateb i anghenion a thystiolaeth leol. Mewn ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg dylai penderfyniadau ynghylch datblygu tai ystyried materion fel:

- Cyfansoddiad ieithyddol cymunedau
- Argaeledd tai i deuluoedd a phobl ifanc lleol
- Y galw am dai cymdeithasol yn lleol
- Y galw am dai fforddiadwy yn lleol
- Patrymau mudo ac allfudo
- Effaith ail gartrefi a llety gwyliau
- Cysylltiad tai a chyfleoedd gwaith
- Capasiti ysgolion a darpariaeth addysg Gymraeg

Y prif ffactor mewn ardaloedd sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg yw'r angen i ystyried cynllunio ysgolion a darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg fel rhan o ddatblygiadau tai newydd. Dylid cynllunio cyfrwng ieithyddol unrhyw ddarpariaeth newydd o'r cychwyn gan sicrhau bod y penderfyniad yn cefnogi amcanion Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r amcan cenedlaethol o ehangu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.

Trafnidiaeth a logisteg

Cwestiwn 36: Sut dylai pobl a nwyddau deithio o amgylch Cymru yn 2050, a pha drafnidiaeth a seilwaith fydd eu hangen?

Dylai trafnidiaeth gefnogi gallu pobl i gael mynediad at waith, addysg, gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn aml iawn mae cymunedau Cymraeg eu hiaith hefyd yn ardaloedd mwy gwledig lle mae trafnidiaeth a logisteg yn gallu bod yn anos. Mae sicrhau seilwaith drafnidiaeth effeithiol yn y cymunedau hyn felly'n allweddol er mwyn ei gwneud yn ddeniadol i bobl barhau i fyw a magu teuluoedd yn yr ardaloedd hyn.

Dylid rhoi sylw penodol ar sut mae isadeiledd trafnidiaeth yn galluogi mynediad at addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni ddylai pellter neu ddiffyg trafnidiaeth addas fod yn rhwystr ymarferol rhag cael mynediad at addysg Gymraeg. Dylai'r Fframwaith felly annog cydlyniad agos rhwng cynllunio trafnidiaeth, cynllunio twf tai a chynllunio addysg.

Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cwestiwn 37: Sut gall datblygu newydd a chynllunio helpu i gefnogi a chryfhau'r Gymraeg?

Mae adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gynllunio gwlad a thref yn argymell bod angen adolygu'r Fframwaith Cenedlaethol a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig er mwyn rhoi ystyriaeth lawnach i ddosbarthiad gofodol siaradwyr y Gymraeg a goblygiadau hynny ar gyfer system gynllunio Cymru. Rydym yn cytuno â'r argymhelliad hwn, ac mae ein hymateb i weddill cwestiynau'r ymgynghoriad hwn yn manylu ar sut gellid gwneud hyn.

Fel haen uchaf y system cynllunio yng Nghymru, bydd y Fframwaith yn dylanwadu ar y ffordd y caiff lleoedd, cymunedau, seilwaith ac adnoddau naturiol eu cynllunio a'u rheoli dros y degawdau nesaf. Mae angen i'r fframwaith ddarparu llawer mwy o arweiniad i'r Cydbwyllgorau Corfforaethol ynghylch llunio Cynlluniau Datblygu Strategol, ac i awdurdodau cynllunio wrth iddynt baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Dylai'r Fframwaith:

- Sefydlu disgwyliadau cenedlaethol clir a chyson ynghylch y Gymraeg
- Galluogi amrywio polisïau yn ôl amgylchiadau ieithyddol ardaloedd gwahanol, gan roi sylw neilltuol i anghenion ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr.
- Sicrhau bod datblygiadau'n cyfrannu'n gadarnhaol at gynaliadwyedd y Gymraeg yn hytrach na chanolbwyntio ar liniaru effeithiau negyddol yn unig
- Cysylltu cynllunio defnydd tir â pholisïau tai, economi, addysg a chynllunio ieithyddol cymunedol drwy:
    - Cynllunio a darparu tai sy'n ymateb i anghenion lleol
    - Cefnogi economïau lleol a swyddi cynaliadwy
    - Cysylltu datblygiad tai â chapasiti a datblygiad addysg Gymraeg, gan gynnwys seilwaith drafnidiaeth leol
    - Cynnal gwasanaethau a seilwaith cymunedol
    - Creu lleoedd a chyfleusterau sy'n hwyluso defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg
- Cael ei lywio gan sail dystiolaeth ieithyddol, gymdeithasol, economaidd a demograffig gadarn
- Cynnwys trefniadau clir ar gyfer gweithredu, monitro ac adolygu effeithiau'r Fframwaith ar y Gymraeg

Ein prif neges felly yw y dylai'r fframwaith diwygiedig brif ffrydio'r Gymraeg fel ystyriaeth ganolog wrth benderfynu sut, ble y dylid datblygu. Ni ellir sicrhau twf cynaliadwy yn nifer siaradwyr Cymraeg nac ehangu defnydd o'r iaith drwy bolisïau iaith ac addysg yn unig. Mae sefyllfa'r Gymraeg hefyd yn dibynnu ar natur a hyfywedd y cymunedau lle mae pobl yn byw, yn gweithio, yn defnyddio gwasanaethau ac yn magu teuluoedd. Dylai'r Gymraeg a hyfywedd cymunedau Cymraeg felly fod yn ystyriaeth ganolog strategol wrth lunio'r patrwm datblygu ar hyd a lled Cymru.

Yn ogystal â diwygio'r Fframwaith Cenedlaethol, credwn ei bod hefyd yn hanfodol adolygu Polisi Cynllunio Cymru a'r Canllawiau Cynllunio Atodol, gan gynnwys yn benodol TAN 20. Mae'r egwyddorion rydym yn trafod yn ein hymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad hwn felly yn berthnasol i bob haen o system gynllunio Cymru.

Cwestiwn 38: Sut y dylid adlewyrchu hanes, diwylliant a hunaniaeth leol mewn penderfyniadau ynghylch datblygiad newydd?

Mae'r iaith a ddefnyddir mewn cymuned, y rhwydweithiau cymdeithasol sydd ynddi, ei sefydliadau, ysgolion, busnesau, mannau cyfarfod a gweithgareddau diwylliannol oll yn rhan annatod o gymeriad y lle. Dylai penderfyniadau ynghylch datblygiad newydd felly ystyried sut gall datblygiad gynnal a chryfhau'r nodweddion hynny, gyda thystiolaeth leol a chyfraniad y gymuned yn rhan o'r broses. Er enghraifft fe ddylid sicrhau bod datblygiadau newydd yn defnyddio enwau ac arwyddion dwyieithog, a bod hyn yn rhan o amodau cynllunio lleol.

Gall *enw*'r datblygiad fod yn fan cychwyn naturiol i sefydlu perthynas gadarnhaol â hanes, diwylliant a hunaniaeth leol. Mae enwau lleoedd Cymraeg yn aml yn rhan greiddiol o'r hunaniaeth honno. Maent yn cofnodi hanes, iaith, tirwedd a threftadaeth cymunedau, ac yn aml yn cynnal gwybodaeth am nodweddion lleol sydd wedi goroesi dros genedlaethau.

Wrth ystyried datblygiad newydd, dylid felly:

- **diogelu a defnyddio enwau Cymraeg presennol** sy'n gysylltiedig â'r safle neu'r ardal, yn hytrach na chyflwyno enwau newydd nad oes ganddynt gysylltiad lleol;
- **ymchwilio i enwau hanesyddol** caeau, ffermydd, nodweddion tirwedd ac aneddiadau cyn enwi strydoedd, stadau neu ddatblygiadau newydd;
- **rhoi blaenoriaeth i ffurfiau Cymraeg dilys**, gan sicrhau sillafiad a ffurf safonol briodol;
- **osgoi enwau generig neu fasnachol** sy'n gallu gwanhau cymeriad ieithyddol a diwylliannol unigryw ardal;

- **cynnwys y gymuned leol ac arbenigedd enwau lleoedd** yn y broses o ddewis enwau newydd; a
- **sicrhau bod enwau Cymraeg yn weladwy** ar arwyddion, mapiau, cyfeiriadau a deunyddiau sy'n ymwneud â'r datblygiad.

Mae penderfyniadau cynllunio yn gallu naill ai atgyfnerthu neu erydu hunaniaeth leol. Dylai datblygiad newydd felly ymateb i gymeriad y lle sydd yno eisoes, gan drin enwau lleoedd Cymraeg fel rhan o'r dreftadaeth fyw ac fel adnodd i'w drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

O dan Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal a chyhoeddi Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru. Mae eisoes dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru i ddefnyddio'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol hon pan fo'u swyddogaethau'n ymwneud ag enwi neu ailenwi lleoedd. Mae hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau penodol i awdurdodau lleol wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol ar enwi a rhifo strydoedd. Mae potensial i gryfhau'r dyletswyddau hyn ymhellach drwy ymestyn y dyletswyddau statudol i gyrff eraill a thrwy wneud darpariaethau penodol i roi blaenoriaeth i enwau Cymraeg. Mae gan y Comisiynydd arbenigedd penodol yn y maes hwn ar gyfrif ei gyfrifoldeb unigryw i safoni enwau lleoedd Cymru. Byddai'r Comisiynydd yn awyddus i drafod sut y gellid ymestyn ei wasanaeth ymgynghorol i sefydliadau o bob math sy'n dymuno bathu enwau Cymraeg addas ar ddatblygiadau newydd.

Cwestiwn 48: Pa wybodaeth a thystiolaeth y dylid eu defnyddio i helpu lunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Diwygiedig

Dylid defnyddio ystod o ddata am yr iaith Gymraeg, ar lefel genedlaethol a lleol. Mae ein hadroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg, ynghyd ag adroddiadau'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg a Chompendiwm Prosiect Bro yn darparu trosolwg manwl o'r math o ddata y dylid ei hystyried. Mae'n cynnwys:

- Nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg
- Dwysedd siaradwyr
- Trosglwyddo' r Gymraeg
- Gallu yn ôl oedran
- Data am ddefnydd o' r Gymraeg
- Data addysg gan gynnwys capasiti a lleoliad addysg Gymraeg, targedau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, trafnidiaeth a hygyrchedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- Data demograffig gan gynnwys mudo ac allfudo, cyfansoddiad aelwydydd, amcanestyniadau poblogaeth, newid dros amser

- Data am dai, gan gynnwys y galw am dai cymdeithasol a fforddiadwy, prisiau tai ac incwm lleol, ail gartrefi a llety gwyliau, lleoliad, math a maint datblygiadau tai
- Data economaidd, gan gynnwys math o swyddi, sectorau cyflogaeth a chyflogau
- Yn fwy cyffredinol credwn fod angen casglu a defnyddio ystod ehangach o ddata cyfredol a lleol ynghylch y Gymraeg ac effaith penderfyniadau cynllunio ar y Gymraeg a'i siaradwyr. Ni allwn ddibynnu ar ddata y cyfrifiad bob 10 mlynedd fel sail ar gyfer cynllunio ac asesu effaith. Dylai'r Fframwaith felly annog cydbwyllgorau corfforedig ac awdurdodau lleol i fod yn casglu a defnyddio data manwl a chyfredol wrth lunio eu Cynlluniau Datblygu Strategol a'u Cynlluniau Datblygu Lleol, ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

Yn y cyd-destun uchod credwn bod hefyd angen ystyried y dyletswydd sydd ar awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol i lunio strategaethau 5-mlynedd ar gyfer hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae dogfen gyngor rydym wedi ei chyflwyno yn ddiweddar i Weinidogion Cymru yn amlinellu perthnasedd y strategaethau hybu fel cyfrwng ar gyfer cynllunio, monitro ac adrodd ar effaith polisïau mewn meysydd allweddol fel cynllunio gwlad a thref.

Rhan D

Galwad am Dystiolaeth

Nodwch y dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r gwaith o ddiwygio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Rydym yn argymell eich bod yn rhoi sylw penodol i'r dystiolaeth ganlynol:

- Adroddiad 5-mlynedd Comisiynydd y Gymraeg
- Dogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg ar gynllunio ieithyddol cymunedol
- Adroddiadau Comisiwn Cymunedau Cymraeg, gan gynnwys yn benodol ei waith ar gynllunio gwlad a thref
- Data'r cyfrifiad a data gweinyddol perthnasol eraill. Gweler er enghraifft dashfwrdd data Comisiynydd y Gymraeg.